**RHYBUDD o Benderfyniadau'r Pwyllgor Cynllunio a Gorchmynion a gynhaliwyd ar ffurf cyfarfod rhithiol ar ddydd Mercher, 2 Medi 2020.**

***[Mae'r ddogfen hon er gwybodaeth yn unig, a bydd cofnodion llawn o'r cyfarfod gerbron y cyfarfod nesaf o'r Pwyllgor Cynllunio a Gorchmynion i'w cymeradwyo.***

***Mae'r dogfennau ar gyfer y cyfarfod uchod ar wefan y Cyngor ynghyd â gweddarllediad o'r gweithgareddau].***

| | |
|---|---|
| **Yn bresennol:** | Y Cynghorydd Nicola Roberts (Cadeirydd)<br>Y Cynghorydd Richard Owain Jones (Is-Gadeirydd)<br><br>Y Cynghorwyr John Griffith, Glyn Haynes, T Ll Hughes MBE, K P Hughes, Vaughan Hughes, Eric Wyn Jones, Bryan Owen, Dafydd Roberts a Robin Williams.<br><br>Y Cynghorydd Richard A Dew – Aelod Portffolio (Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd) |
| **Ymddiheuriadau:** | Dim |
| **Hefyd yn bresennol:** | Aelodau Lleol: Y Cynghorydd Dafydd R Thomas (cais 7.1) |

1.00 o'r gloch - 2.00 o'r gloch

| RHIF YR EITEM A'R PWNC | **3 COFNODION** |
|---|---|
| PENDERFYNIAD | Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod blaenorol y Pwyllgor Cynllunio a Gorchmynion a gynhaliwyd ar 5 Awst, 2020 a chadarnhawyd eu bod yn gywir. |

| RHIF YR EITEM A'R PWNC | **4 YMWELIAD SAFLEOEDD** |
|---|---|
| PENDERFYNIAD | Ni chynhaliwyd yr un ymweliad. |

| RHIF YR EITEM A'R PWNC | **5 SIARAD CYHOEDDUS** |
|---|---|
| PENDERFYNIAD | Cyflwynwyd sylwadau gan yr asiant mewn perthynas â chais 7.1 a darllenwyd y sylwadau yn y cyfarfod hwn o'r Pwyllgor Cynllunio a Gorchmynion. |

| RHIF YR EITEM A'R PWNC | **6 CEISIADAU FYDD YN CAEL EU GOHIRIO** |
|---|---|

| | |
|---|---|
| PENDERFYNIAD | Ni ystyriwyd unrhyw geisiadau o'r fath yn ystod y cyfarfod hwn o'r Pwyllgor Cynllunio a Gorchmynion. |

| | |
|---|---|
| RHIF YR EITEM A'R PWNC | **7 CEISIADAU'N CODI** |
| PENDERFYNIAD | **7.1 19C1231 – Cais amlinellol ar gyfer codi 32 annedd marchnad a 4 annedd fforddiadwy, adeiladu mynedfa newydd i gerbydau a cherddwyr, darparu man chwarae a mannau agored ynghyd â manylion llawn y fynedfa a'r gosodiad ar dir ger Cae Rhos Estate, Ffordd Porthdafach Road, Caergybi.**<br><br>**PENDERFYNWYD caniatáu'r cais yn unol ag argymhelliad diwygiedig y Swyddog, yn amodol ar:-**<br><br>• **roi dirprwyaeth i swyddogion Cynllunio osod amodau Cynllunio addas:-**<br><br>  • **amod Grampian o ran Gorchymyn Rheoliad Traffig (TRO) yn cael ei weithredu cyn unrhyw ddatblygiad o'r safle;**<br>  • **bod cytundeb cyfreithiol Adran 106 yn cael ei weithredu er mwyn sicrhau tai fforddiadwy o fewn y datblygiad a chyfraniad addysg a'r datblygwr i ariannu costau'r TRO.** |

| | |
|---|---|
| RHIF YR EITEM A'R PWNC | **8 CEISIADAU ECONOMAIDD** |
| PENDERFYNIAD | Ni ystyriwyd unrhyw geisiadau o'r fath yn ystod y cyfarfod hwn o'r pwyllgor Cynllunio a Gorchmynion. |

| | |
|---|---|
| RHIF YR EITEM A'R PWNC | **9 CEISIADAU AM DY FFORDDIADWY** |
| PENDERFYNIAD | Ni ystyriwyd unrhyw geisiadau o'r fath yn ystod y cyfarfod hwn o'r pwyllgor Cynllunio a Gorchmynion. |

| | |
|---|---|
| RHIF YR EITEM A'R PWNC | **10 CEISIADAU'N GWYRO** |
| PENDERFYNIAD | **10.1 VAR/2020/43 -Cais o dan Adran 73A i ddiwygio amod (08) (Cynllun draenio) (09) (Cynllun rheoli traffic adeiladu) (12) (Cofnod ffotograffig) (13) (Trwydded** |

| | |
|---|---|
| | **rhywogaeth wedi amddiffyn) o ganiatâd cynllunio rhif 21C171 (Trosi adeilad allanol fewn i 4 annedd) er mwyn galluogi cyflwyno manylion ar ôl i'r datblygiad gychwyn yn Nhyddyn Llywarch, Llanddaniel**<br><br>**PENDERFYNWYD cymeradwyo'r cais yn unol ag argymhelliad y Swyddog yn amodol ar yr amodau a restrir yn yr adroddiad ysgrifenedig, yn amodol ar dderbyn yr ymatebion i'r ymgynghoriad sy'n weddill.** |

| | |
|---|---|
| RHIF YR EITEM A'R PWNC | **11 CYNIGION DATBLYGU A GYFLWYNWYD GAN GYNGHORWYR A SWYDDOGION** |
| PENDERFYNIAD | Ni ystyriwyd unrhyw geisiadau o'r fath yn ystod y cyfarfod hwn o'r Pwyllgor Cynllunio a Gorchmynion. |

| | |
|---|---|
| RHIF YR EITEM A'R PWNC | **12 GWEDDILL Y CEISIADAU** |
| PENDERFYNIAD | **12.1 HHP/2020/114 – Cais llawn ar gyfer dymchwel estyniad cefn presennol ac adeiladu estyniad cefn newydd hefo addasu ac ehangu yn 23 Craig Y Don, Amlwch**<br><br>**PENDERFYNWYD cymeradwyo'r cais yn unol ag argymhelliad y Swyddog yn amodol ar yr amodau a restrir yn yr adroddiad ysgrifenedig.** |

| | |
|---|---|
| RHIF YR EITEM A'R PWNC | **13 MATERION ERAILL** |
| PENDERFYNIAD | Ni ystyriwyd unrhyw geisiadau o'r fath yn ystod y cyfarfod hwn o'r Pwyllgor Cynllunio a Gorchmynion. |